Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

**Cwestiynau Cyffredin**

**Pa waith ydych chi'n ei wneud?**

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru (TC) i ddarparu tramffordd newydd o Gaerdydd Canolog i Fae Caerdydd, yn rhan o gam cyntaf Cledrau Croesi Caerdydd.  Bydd hyn yn gwella cysylltedd rhwng canol y ddinas a'r Bae, ac o fudd i'r ddinas a'r rhanbarth ehangach.

Mae GRAHAM wedi'i nodi fel y prif gontractwr ar gyfer y gwaith adeiladu hwn, fydd yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

Caiff cam cyntaf y cynllun ei adeiladu rhwng gorsaf drenau Caerdydd Canolog a Bae Caerdydd. Bydd y dramffordd newydd yn sicrhau cysylltedd cryf rhwng Butetown a chanol y ddinas, gan ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd ac ymwelwyr allu mynd i Fae Caerdydd.

Bydd y cam hwn o'r cynllun yn darparu:

- Gorsaf dau blatfform newydd ym maes parcio deheuol gorsaf reilffordd Caerdydd Canolog.
- Tramffordd newydd o'r maes parcio deheuol yng ngorsaf Caerdydd Canolog, yn croesi trwy Sgwâr Callaghan i ymuno â llinell bresennol Bae Caerdydd.
- Gwelliannau helaeth i'r Ardal Gyhoeddus yn Sgwâr Callaghan, ad-drefnu aliniad y priffyrdd a beicffyrdd ar wahân.
- Seilwaith Gwyrdd Newydd ar ffurf plannu newydd, tramffordd laswelltog, coed a draenio cynaliadwy.
- Trydydd platfform ychwanegol yng ngorsaf reilffordd Bae Caerdydd (yn ogystal â'r platfformau newydd sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd)

**A fydd y gwaith yn achosi aflonyddwch?**

Er mwyn adeiladu'r llwybr tram-drenau newydd rhwng Caerdydd Canolog a Bae Caerdydd yn ddiogel, bydd angen ad-drefnu'r cynllun yn yr ardal yn sylweddol, a gallai'r mesurau canlynol fod ar waith ar unrhyw adeg:

- Lleihau lonydd ac ailddyrannu lonydd
- Symudiadau troi cyfyngedig
- Cyffyrdd â llai o gapasiti
- Cynlluniau traffig dros dro
- Cau ffyrdd i hwyluso'r gwaith

**Effaith:**

Bydd y newidiadau hyn yn effeithio'n ddifrifol ar lif traffig, yn enwedig yn ystod oriau brig.  Dylai gyrwyr ddisgwyl:

- Amseroedd teithio hwy
- Ciwio a thagfeydd ledled yr ardal
- Oedi a allai fod yn sylweddol yn ystod cyfnodau prysur

**Cyngor:**
Cynghorir defnyddwyr y ffordd yn gryf i:

- Osgoi ardal Sgwâr Callaghan os yn bosib
- Defnyddio llwybrau amgen
- Caniatáu amser ychwanegol ar gyfer teithiau hanfodol
- Ystyried trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio ar gyfer teithiau byrrach

Rydym yn cydnabod yr anghyfleustra y bydd y gwaith hwn yn ei achosi; fodd bynnag, mae'n hanfodol i ddarparu cyswllt trafnidiaeth modern, dibynadwy rhwng Canol Caerdydd a Bae Caerdydd, ochr yn ochr â gwelliannau sylweddol i'r ardal gyhoeddus a'r amgylchedd priffyrdd ehangach.

**A fydda i'n dal i allu teithio ar fws neu drên yn ystod y gwaith?**

Gwiriwch eich taith cyn i chi deithio ar y trên drwy fynd i trc.cymru/statws-gwasanaeth

Gallwch gael mwy o wybodaeth am wasanaethau Bws Caerdydd yma. Gwiriwch gyda Bws Caerdydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eu gwasanaethau

**A fydd newidiadau i lwybrau cerdded drwy gydol y gwaith?**

Bydd llwybr diogel i gerddwyr yn cael ei ddarparu drwy gydol y gwaith. Efallai y bydd achlysuron pan fydd angen croesfannau dros dro neu pan fydd llwybrau yn cael eu dargyfeirio rhywfaint wrth i ni gynnal gweithgareddau adeiladu. Bydd llwybrau amgen bob amser wedi'u harwyddo'n glir. Gellir dod o hyd i fapiau dargyfeirio cerddwyr a llwybrau ar wefan GRAHAM: www.graham.co.uk/cledrau-croesi-caerdydd/

**Faint o amser bydd y gwaith yn ei gymryd?**

Bydd y gwaith galluogi yn dechrau ym mis Mehefin 2026 a disgwylir i'r gwaith adeiladu gymryd tan o leiaf ddiwedd Awst 2028.

Mae nifer o wahanol gamau gwaith sy'n gofyn am gynlluniau rheoli traffig gwahanol.

Bydd gwybodaeth am gau ac ailgyfeirio bob amser yn cael ei darparu cyn i'r cau ddigwydd.

Bydd angen cau rhan o Stryd Bute o'r gyffordd â Sgwâr Callaghan i Stryd Maria yn ystod rhai camau er mwyn hwyluso adeiladu. Mae hyn yn cynnwys:

- Cau'r ffordd rhwng Stryd Ogleddol yr Eglwys a Stryd Maria
- Cau'r ffordd o Sgwâr Callaghan i Stryd Ogleddol yr Eglwys
- Darn o draffig un lôn rhwng Sgwâr Callaghan a Stryd Maria

Pan fydd dyddiadau ar gyfer cau yn cael eu cadarnhau, byddwch yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan y contractwr www.graham.co.uk/cledrau-croesi-caerdydd/

**A fydd gwaith nos?**

Bydd angen gwneud rhywfaint o waith yn y nos pan nad yw trenau'n rhedeg, a gellir cau ffyrdd i sicrhau diogelwch ein gweithwyr. Gall y gwaith hwn fod yn swnllyd, ond byddwn yn ceisio tarfu cyn lleied â phosibl trwy ddefnyddio'r mesurau lleihau sŵn mwyaf priodol ar gyfer yr ardal. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i'r preswylwyr lleol cyn bod gwaith nos yn digwydd.

**Beth yw'r weledigaeth ehangach ar gyfer Cledrau Croesi Caerdydd?**

Mae cam 1a Cledrau Croesi Caerdydd yn rhan o weledigaeth ehangach Cledrau Croesi Caerdydd a gyflwynir yn y Papur Gwyn Trafnidiaeth, a gyhoeddwyd gan Gyngor Caerdydd ym mis Gorffennaf 2019.

Mae Cledrau Croesi Caerdydd yn gynllun beiddgar ac uchelgeisiol i ddarparu system dramiau newydd i'r ddinas – un fydd yn y pen draw yn ymestyn o ogledd-orllewin y ddinas i'r dwyrain, gan gysylltu â gorsaf arfaethedig Parc Caerdydd. Gyda buddsoddiad pellach, ein nod yw creu gwasanaeth tramiau traws-ddinas dibynadwy a fforddiadwy fydd yn cysylltu rhai o gymunedau Caerdydd â'r rhwydwaith rheilffyrdd am y tro cyntaf.

Mae hwn yn fuddsoddiad hirdymor yn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus Caerdydd – sydd wedi'i gynllunio nid yn unig i symud pobl, ond i drawsnewid y ffordd maen nhw'n symud. Er bod cost y rhan hon yn adlewyrchu graddfa'r gwaith, bydd rhywfaint o'r cyllid yn mynd tuag at wella mannau cyhoeddus ac integreiddio llwybrau cerdded a beicio. Pwrpas hyn yw adeiladu system drafnidiaeth wyrddach, fwy cynaliadwy – yn debyg i'r rhai sydd eisoes yn gweithredu mewn dinasoedd fel Manceinion, Nottingham a Chaeredin.

**Sut alla i roi fy adborth?**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ac yn dymuno siarad ag aelod o'r tîm, e-bostiwch;

Harry Knapp, Swyddog Rhanddeiliad ac Ymgysylltu Cymunedol

E-bost: civilscustomerrelations@graham.co.uk

Gallwch hefyd e-bostio TimyRhaglenDrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk

**Ble galla i gael mwy o wybodaeth?**

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys gwybodaeth am lwybrau, yma www.graham.co.uk/cledrau-croesi-caerdydd/